



Goruchwyliaeth Addysgol-Trefniadau Eithriadol: adroddiad y dadansoddiad pen desg o Goleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor, Mai 2020

Canlyniad y dadansoddiad pen desg

1 Ar sail yr adroddiad blynyddol a'r dystiolaeth ddogfennol a gyflwynwyd, daeth y tîm monitro i'r casgliad bod Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor yn parhau i gynnal y safonau academiaidd, ynghyd ag ansawdd y cyfleoedd dysgu i'w fyfyrwyr, a welwyd yn [ymweliad monitro](#) mis Mai 2019.

Newidiadau ers yr ymweliad monitro diwethaf gan QAA

2 Mae Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor ('y Coleg') yn bartneriaeth rhwng Grŵp Addysg Ryngwladol Rhydychen [Oxford International Education Group] ('y Grŵp') a Phrifysgol Bangor ('y Brifysgol'). Mae'r Coleg wedi cynyddu cyfanswm ei gofrestrïadau myfyrwyr yn raddol rhwng blynyddoedd academiaidd 2017-18 a 2019-20, gyda chynnydd o 33% yn y nifer o fyfyrwyr o'i gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol. Rhagwelwyd rhagor o gofrestrïadau ym mis Ebrill 2020. Ymysg staff y Coleg, mae staff llawn amser ochr yn ochr â 17 o diwtoriaid sesiynol. Mae nifer y staff wedi cynyddu yn unol â'r nifer gynyddol o fyfyrwyr gan adlewyrchu'r ehangiad yn y rhaglenni a gynigir.

3 Cyflwynwyd rhaglenni newydd 'International Year 1' mewn Seicoleg, a derbyniodd y rhaglen 'International Incorporated Masters' dau dymor mewn Seicoleg ei charfan gyntaf o fyfyrwyr ym mis Ionawr 2020. Bwriadwyd cofrestru myfyrwyr o'r DU a'r UE ar raglen Blwyddyn Sylfaen Lefel 3 o fis Medi 2020 ymlaen. Ni chafwyd unrhyw newidiadau eraill ers yr ymweliad monitro diwethaf a gynhaliwyd gan QAA ym mis Mai 2019.

Canfyddiadau'r dadansoddiad pen desg

4 Gweithredwyd yr adolygiad ar ffurf dadansoddiad pen desg, a ffurfiodd y tîm gasgliad yr adolygiad drwy ddarllen y Ffurflen Fonitro Flynyddol a'r dystiolaeth ddogfennol a gyflwynwyd. Cadarnhaodd yr adolygiad o'r Coleg a wnaethpwyd o dan y dull Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol yn 2019 fod y camau gweithredu a gymerwyd gan y Coleg mewn ymateb i'w adolygiad gan QAA yn 2018 wedi'u cyflawni. Sicrhawyd bod y trawsgrifiadau a roddir i'w fyfyrwyr yn adlewyrchu lefel yr astudio ym mlwyddyn academiaidd 2019-20, ac adolygwyd y llawlyfrau myfyrwyr ym mis Medi 2019 fel eu bod yn egluro'r rheoliadau sy'n berthnasol i bob rhaglen. Mae gwaith y Coleg yn parhau i gael ei graffu ymhellach gan y Brifysgol, sy'n gorff dyfarnu iddo, er mwyn gwella profiad ei fyfyrwyr. Gyda'i gamau gweithredu a'i weithgareddau sydd ar waith, a'i waith gyda'i bartner, mae'r Coleg wedi dangos ei fod yn bodloni fersiwn ddiwygiedig Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU ynghyd â'r Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sy'n elfennau gorfodol ohono.

5 Mae'r adroddiad data'n cadarnhau bod y nifer o fyfyrwyr wedi cynyddu, a bod cyfraddau cadwraeth, cynnydd a chwblhad y myfyrwyr yn dal i fod yn uchel. Mae'r Coleg yn parhau i ddatblygu ei aliniad â'i bwyntiau cyfeirio allanol, gan weithio'n agos â'i brifysgol partner.

6 Cyflawnwyd y gofynion monitro drwy Fforymau'r Myfyrwyr, Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu, a chyfarfodydd rhaglenni a gynhelir bob tymor, sy'n cynnwys gwerthuso'r mesurau lle rhoddir cyfle i gynrychiolwyr y myfyrwyr gyflwyno canlyniadau gwerthusiadau gan y myfyrwyr.

7 Mae'r Coleg yn parhau i gyflawni gwelliannau a chyflwyno gweithgareddau gwella, gan eu datblygu mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor a Phwyllgor Ansawdd y Grŵp sy'n gweithredu ar ran y Grŵp. Mae Pwyllgor Ansawdd y Grŵp yn rhannu arferion da ar draws y colegau partner ac, yn ddiweddar, mae wedi sefydlu cynllun gweithredu'r Coleg fel cofnod dynamig canolog lle cesglir gweithgareddau'r Coleg ynghyd. Mae cynllun y Coleg yn tynnu at ei gilydd gamau gweithredu i ymateb i ganlyniadau adolygiadau gan y cyrff rheoleiddio, prosesau archwilio neu fonitro gan Brifysgol Bangor, ochr yn ochr â datblygiadau arfaethedig y Coleg ei hun. Defnyddir y Calendr o Weithgareddau i bennu'r camau gweithredu ac i fonitro eu datblygiad, a thynnir sylw at eitemau safonol yng nghyfarfodydd y Coleg.

8 Mae Cyd-Fwrdd Llywio'r Grŵp a Phrifysgol Bangor yn goruchwylio materion strategol a gweithredol, ac mae'r Cyd-Fwrdd Academaidd yn goruchwylio'r safonau academaidd mewn cydweithrediad rhwng y Coleg a Phrifysgol Bangor. Yn goruchwylio'r materion gweithredol mae Cyd-Fwrdd Gweithredol ac mae'r trefnau hyn yn bodloni gofynion Llawlyfr Gweithredu a Sicrhau Ansawdd Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor (y Coleg) a gofynion y Brifysgol o ran monitro ac adolygu. Mae'r Coleg yn parhau i gydweithio â Phrifysgol Bangor yn aml, ac maent wrthi'n gweithredu nifer o brosesau ar y cyd, ac yn ystyried materion partneriaeth megis eu gwaith o adolygu cylch gwaith y Cyd-Fwrdd Academaidd fel ei fod yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a chytundebau lefel gwasanaeth fel eitemau safonol ar ei agenda.

9 Mae cyfarfodydd Fforwm y Myfyrwyr a gynhelir bob tymor yn darparu cyfle ffurfiol i'r myfyrwyr roi adborth. Mae'r myfyrwyr yn rhoi adborth am bob modiwl gan ddefnyddio Holiadur Modiwl, ac am eu rhaglenni gan ddefnyddio Holiadur Rhaglen. Crynhoir yr holiaduron hyn fesul modiwl a rhaglen ac maent yn cael eu hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu, gyda chanlyniadau sydd wedyn yn derbyn sylw yn y cyfarfodydd adrodd a llywodraethu blynyddol lle cytunir ar gamau gweithredu.

10 Mae'r Coleg yn monitro rhaglenni gan ddefnyddio'r holiaduron a gwblheir gan y myfyrwyr, ynghyd ag adroddiadau hunanwerthuso gan y tiwtoriaid sy'n rhoi eu hadolygiadau o'r modiwlau y maent yn eu haddysgu. Mae tiwtoriaid cyswllt ac arholwyr allanol yn darparu adroddiadau allanol am weithgareddau'r rhaglenni. Mae'r dulliau hyn yn cydymffurfio â'r prosesau ar gyfer monitro ac adolygu sydd wedi'u hamlinellu yn llawlyfrau gweithredu'r Coleg a'r Brifysgol. Ystyrir yr adroddiadau hyn ar y cyd â'r staff yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu, a bwriedir sefydlu Fforwm Tiwtoriaid er mwyn cynnig cyfle arall i diwtoriaid drafod materion a rhoi eu hadborth.

11 Mae'r Coleg yn amserlennu cyfarfodydd i staff bob tymor er mwyn rhoi cyfle iddynt ystyried materion gweithredol sy'n ymwneud â'r rhaglenni. Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi canolbwyntio ar ddatblygu nifer o arferion i'w staff. Nod un datblygiad o'r fath yw rheoli cyfarfodydd a gynhelir yn dilyn yr asesiadau ar ôl eu marcio er mwyn galluogi i'r tiwtoriaid drafod y gwaith o ail farcio'r sgriptiau, ac er mwyn sicrhau bod y sgriptiau ar gael mewn da bryd i gael eu hadolygu gan arholwyr allanol. Mae'r gweithgareddau datblygu staff eraill yn cynnwys cynnal cyfarfodydd i staff academaidd sydd â ffocws ar faes astudio eu rhaglenni. Nod y cyfarfodydd yw rhoi amser i dîm pob rhaglen gynllunio, datblygu ymatebion i adborth gan y myfyrwyr a'r arholwyr allanol, a rhannu arferion cyson. Mae'r trefniant hwn ar gam cynnar ar hyn o bryd ac nid yw effaith y cyfarfodydd hyn wedi cael ei gwerthuso eto.

12 Penodir tiwtoriaid sydd ag ystod addas o sgiliau pwnc a sgiliau darparu, ac mae nifer ohonynt mewn cysylltiad agos cyfredol â Phrifysgol Bangor drwy eu hastudiaethau lefel uwch. Mae'r Coleg wedi cyflwyno arfarniadau tiwtoriaid blynyddol sy'n cynnwys ystod o ddyletswyddau a chyfrifoldebau ac sy'n rhoi cyfle i'r staff hunanwerthuso a chanfod eu hanghenion datblygiad.

Mae'r Coleg wedi cyflwyno gwerthusiadau gan gymheiriaid o'r ddarpariaeth ochr yn ochr â hunanwerthusiadau'r tiwtoriaid. Mae rheolwyr yn arsylwi gwaith darparu'r tiwtoriaid pwnc yn ffurfiol, ac mae arferion da'n cael eu datblygu ymhellach a'u rhannu yng nghyfarfodydd Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Coleg.

13 Mae'r cyfleoedd hyfforddi i diwtoriaid yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, megis delio gyda phroblemau yn y dosbarth; disgwyliadau o ran datblygiad iaith y myfyrwyr a'r cymorth perthnasol; diwrnodau i ddatblygu arferion marcio; a datblygu dulliau o ddysgu gan gymheiriaid. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhan o strategaeth i ehangu'r cyfleoedd datblygu staff ffurfiol sydd ar gael i'r tiwtoriaid, ac roedd y Coleg wrthi'n cynllunio ei gynhadledd gyntaf i'w diwtoriaid ar adeg yr adolygiad. Bwriad hyn yw datblygu gwybodaeth i'r staff am strategaethau dysgu ac addysgu ac ysgogi trafodaeth amdanynt. Mae Prifysgol Bangor yn cynnig cyfleoedd datblygu staff ffurfiol allanol i staff y Coleg, megis y rhaglenni Tystysgrif Addysgu mewn Addysg Uwch i Raddedigion, sy'n cael eu hariannu'n rhannol gan y Grŵp. Mae'r Grŵp yn cynnig Diplomâu TESOL i staff y Coleg.

14 Mae'r system o gynrychiolaeth myfyrwyr yn cael ei hehangu drwy roi cyfleoedd i enwebai o blith y myfyrwyr gymryd rhan yng nghyfarfodydd byrddau'r Coleg a'r Brifysgol, cadeirio Fforwm y Myfyrwyr, gweithredu fel y Prif Gynrychiolydd Myfyrwyr, a chynrychioli'r myfyrwyr ar y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu a'r Cyd-Fwrdd Academaidd. Mae'r Coleg wedi penodi llysgenhadon myfyrwyr o blith ei gyn-fyfyrwyr. Mae'r Coleg wedi cydweithio â'i gorff myfyrwyr wrth lunio cynlluniau i ehangu ei rwydwaith o gysylltiadau sy'n cefnogi ei fyfyrwyr ac sy'n eu helpu gyda'r pontio, megis staff Prifysgol Bangor yn rhoi sgysiau yn ystod proses ymsefydlu'r Coleg. Penodwyd Swyddog Ymgysylltiad Myfyrwyr.

15 Mae'r strategaethau asesu'n cael eu datblygu ymhellach er mwyn lleihau arferion academaidd gwael. Mae'r strategaethau hyn yn canolbwyntio ar gynyddu nifer yr asesiadau rheoledig a ddefnyddir. Caiff yr arferion hyn eu cefnogi drwy'r llawlyfr academaidd sydd ar gael i'r myfyrwyr, y deunyddiau cymorth megis y canllaw i'r arholiadau sydd ar gael ar wefan Blackboard, a'r sesiynau a gynhelir am arferion cymeradwy mewn arholiad. Hefyd, mae cynllun gweithredu'r Coleg yn cynnwys eitemau i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hawdd i'r myfyrwyr cyn iddynt gyrraedd.

16 Mae'r Coleg yn parhau i gynyddu'r nifer o gofrestrïadau myfyrwyr, gyda chynnydd o 33% yn y nifer o fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar ei raglenni o'i gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol, a gyda'r bwriad o gofrestru rhagor o fyfyrwyr ym mis Ebrill 2020. Cofrestrwyd y nifer uchaf o fyfyrwyr ar raglenni busnes, ond cyflwynwyd dau lwybr rhaglen newydd mewn Seicoleg eleni. Ym mis Ionawr 2020, cofrestrwyd y garfan gyntaf o fyfyrwyr ar y rhaglen newydd 'International Incorporated Masters' dau dymor mewn Seicoleg. Rhagwelwyd rhagor o gofrestrïadau ar y rhaglen 'International Incorporated Masters' un tymor mewn Seicoleg ym mis Ebrill 2020.

17 Mae cyfraddau cadwraeth, cyflawniad a chynnydd y myfyrwyr yn dal i fod yn uchel ar bob un o'r rhaglenni, gyda bron i 94% o'r myfyrwyr yn pasio ac yn symud ymlaen i astudio ar lefel uwch. Erbyn hyn, mae tair carfan wedi mynd ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Bangor. O'r garfan ddiweddaraf o gyn-fyfyrwyr y Coleg sydd wedi graddio o Brifysgol Bangor, cyrhaeddwyd gradd 'pasio' gan 18 ohonynt, gradd 'teilyngdod' gan dri, a derbyniodd un myfyriwr radd 'rhagoriaeth'.

Cynnydd o ran gweithio gyda'r pwyntiau cyfeirio allanol er mwyn cyflawni disgwyliadau'r DU mewn perthynas ag addysg uwch

18 Mae'r Coleg yn cydweithio'n effeithiol â'i brifysgol partner i ddatblygu ac ail-ddilysu rhaglenni. Datblygir rhaglenni newydd drwy ddefnyddio prosesau datblygu a chymeradwyo Prifysgol Bangor. Mae'r dyfarniadau hyn yn rhoi ystyriaeth i bwyntiau cyfeirio allanol, megis *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) a Datganiadau Meincodi Pwnc.

Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) yw'r pwynt cyfeirio sy'n cael ei ystyried yn y modiwlau iaith Saesneg.

19 Mae'r Coleg yn rhoi ystyriaeth i'r datganiadau meincnodi perthnasol mewn dogfennau sy'n diffinio manylebau'r rhaglenni a'r modiwlau, gan ddefnyddio prosesau Prifysgol Bangor. Mae'r Cyd-Fwrdd Academaidd yn sicrhau bod y prosesau sicrhau ansawdd sy'n rhan integrol o Lawlyfr Gweithredu a Sicrhau Ansawdd y Coleg yn cael eu goruchwyllo'n effeithiol. Cadarnheir dulliau'r Coleg yng nghyfarfodydd y Cyd-Fwrdd Academaidd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am fonitro sicrwydd ansawdd a safonau.

20 Yn ddiweddar, gwnaeth y Grŵp ymarfer mapio o weithgareddau'r Coleg yn erbyn yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin ar gyfer ansawdd a safonau sy'n elfennau gorfodol o fersiwn ddiwygiedig Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd). Gwnaethpwyd y gwaith hwn i roi cyfle i'r colegau unigol roi'r ymarfer mapio yn ei gyd-destun er mwyn eu galluogi i sicrhau bod eu harferion yn cyd-fynd ag arferion eu partneriaid. Bu'r Coleg yn ystyried esiamplau o'r gwaith hwn i wirio a oeddent yn gyfatebol ag Arferion Craidd y Cod Ansawdd sy'n ymwneud â safonau. Mae'r esiamplau a roddwyd yn dangos dealltwriaeth eang o Ddisgwyliadau ac Arferion y Cod, er enghraifft, datblygwyd rhaglenni Sylfaen newydd Ysgol Fusnes Bangor sydd wedi derbyn cymeradwyaeth, ac maent yn dangos bod y Coleg yn gweithredu'r safonau trothwy'n gyson ar gyfer y cymwysterau y mae'n eu darparu. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod y Coleg yn cyrraedd y safonau trothwy a bod perfformiad ei fyfyrwyr yn gymaradwy gyda rhaglenni tebyg a ddarperir yn y sector. Byddai prosesau ychwanegol i archwilio strategaethau, polisiau a gweithdrefnau'r Coleg er mwyn arwain a chynghori ei staff i gyflawni'r Arferion Craidd yn tanategu ac ymwreiddio'r wybodaeth a geir yn well.

21 Mae'r Coleg yn cydweithio'n effeithiol â'r arholwyr allanol penodedig sy'n cymeradwyo asesiadau drafft, yn safoni samplau o'r gwaith a gyflwynir ac yn cyfrannu at gyfarfodydd y Bwrdd Arholwyr. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn cael eu rhannu gyda'r staff a'r myfyrwyr a chânt eu hystyried yn ffurfiol, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu mewn ymateb i faterion a godir yn cael eu pennu a'u cofnodi yn y cynllun gweithredu i'r Coleg cyfan. Mae camau ar waith o hyd i ddatblygu dulliau mwy rhagweithiol o sicrhau bod arholwyr allanol yn cyfranogi'n gynharach yn y prosesau craffu yn y Coleg.

22 Mae'r Coleg wedi casglu at ei gilydd gamau gweithredu sydd â ffocws ar sicrhau gwelliant mewn cynllun gweithredu i'r Coleg cyfan. Mae Tîm Rheoli'r Coleg yn tracio ac yn adolygu'r camau gweithredu bob tymor ac mae'n rhannu arferion da gyda'r colegau partner yn y Grŵp. Gwerthusir ac adolygir yr arferion yn fanwl mewn perthynas â'r safonau, yn arbennig lle mae perfformiad y myfyrwyr yn dangos bod angen gwneud hynny.

23 Mae'r Arferion Craidd sy'n ymwneud ag ansawdd wedi'u hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r Cod Ansawdd diwygiedig. Mae'r arferion derbyn yn cael eu rheoli ar y cyd â'r partner gan ddefnyddio dulliau a ragnodir yn y Cytundeb Cydweithredol, ac mae'r broses dderbyn yn cael ei gweithredu o dan Bolisi Derbyn Llwybrau. Mae'r drefn hon yn sicrhau polisi derbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

24 Mae staff y Coleg yn ymgysylltu'n gydweithredol â staff Prifysgol Bangor drwy weithio fel cymheiriaid wrth ddatblygu a rheoli'r rhaglenni a'r bartneriaeth yn gyffredinol. Mae'r trefniadau ar gyfer penodi tiwtoriaid yn cydymffurfio ag arferion adnoddau dynol y Grŵp, ac mae'r Brifysgol yn cymeradwyo pob darpar aelod o staff y Coleg cyn iddynt gael eu penodi. Mae arferion staffio a ddatblygwyd yn ddiweddar yn cynnwys proses ffurfiol o arsylwi tiwtoriaid, cyfleoedd datblygiad staff ffurfiol, ac Adolygiadau Datblygiad Personol blynyddol sy'n pennu cyfleoedd hyfforddi staff. Cynlluniwyd gweithdy gyda siaradwr allanol i'r staff gyda ffocws ar faterion dysgu ac addysgu.

25 Mae'r Coleg yn adolygu ei adnoddau gweinyddu ac addysgu ffisegol a'i drefniadau ar gyfer cefnogi myfyrwyr i sicrhau eu bod yn eu lle, bod myfyrwyr yn cael gwybod amdanynt, a'u bod yn cael eu hystyried yn ffurfiol yng nghyfarfodydd Byrddau Prifysgol Bangor. Mae nifer gynyddol o gyfleoedd i gynnwys llais y myfyriwr mewn strwythurau cynrychioli ffurfiol.

27 Mae'r Coleg wedi cynnal sesiwn datblygiad proffesiynol parhaus i'r staff i'w cyflwyno i'r Cod Ansawdd ynghyd â'r Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sy'n elfennau gorfodol ohono. Yng nghyfarfod y Grŵp ym mis Gorffennaf 2019, ystyriwyd effaith y sesiwn a phenderfynwyd y dylid cynnwys y deunyddiau yn y broses o ymsefydlu staff, ac y dylid sicrhau bod y Cod Ansawdd diwygiedig ar gael i'r staff ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg.

28 Mae'r gweithgareddau a'r dulliau hyn wedi'u hadolygu gan y Coleg ac mae'r ymarfer mapio'n cadarnhau bod y Coleg wedi gwirio esiamplau'n llwyddiannus yn erbyn yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sy'n elfennau gorfodol o'r Cod Ansawdd. Ar hyn o bryd, nid yw seilwaith academiaidd y Coleg ei hun wedi derbyn ystyriaeth fanwl eto yn erbyn y Cod Ansawdd, ac nid oes adroddiad ffurfiol wedi'i gyflwyno eto am ganlyniadau'r gwerthusiad hwn yng nghyfarfodydd llywodraethu'r Coleg.

Cefndir y dadansoddiad pen desg

29 Mae'r dadansoddiad pen desg yn gweithredu fel gwiriad byr o'r ffordd mae'r darparwr yn parhau i reoli safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth. Mae'n canolbwyntio ar y cynnydd a gafwyd ers yr adolygiad blaenorol neu'r broses fonitro flynyddol flaenorol. Yn ogystal, mae'n rhoi'r cyfle i QAA hysbysu'r darparwr am unrhyw faterion a allai fod o ddiddordeb arbennig yn yr adolygiad nesaf neu'r broses fonitro nesaf.

30 Gwnaed y dadansoddiad pen desg gan Deborah Trayhurn, Adolygwr, a Tony Platt, Swyddog QAA, ym mis Mai 2020. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd gyda'r myfyrwyr na'r staff, ac mae'r casgliadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar ddadansoddiad o'r dystiolaeth ddogfennol a gyflwynwyd gan y darparwr.

QAA2548 - R12020 - Mehefin 20

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn 01452 557000
Gwefan www.qaa.ac.uk